
# Gwaith dosbarth

Dewiswch o blith y grwpiau hyn o weithgareddau er mwyn cyflwyno eich disgyblion i waith Cymorth Cristnogol. Gellir lawr-lwytho'r taflenni gwaith hefyd o adran ysgolion **www.christianaid.org.uk/learn** a'u taflunio ar fwrdd gwyn.



## 1. Coeden pynciau

Tynnwch amlinell o goeden ar fwrdd gwyn neu ar ddarn mawr o bapur ac ysgrifennwch 'elusen' ar y boncyff. Gofynnwch i'r plant beth y mae elusennau yn ei wneud (neu dywedwch enwau unrhyw elusennau y maen nhw'n gwybod amdanynt) ac ysgrifennwch eu hatebion ar y canghennau. Ar wreiddiau'r goeden ysgrifennwch y gwaith mae'r elusennau yn canolbwyntio arnynt. Eglurwch i'r plant eu bod yn mynd i ddysgu mwy am waith elusen o'r enw Cymorth Cristnogol. Gofynnwch iddyn nhw beth maen nhw'n credu y mae Cymorth Cristnogol yn ei wneud.

## 2. Sut mae'n gweithio

Lawr-lwythwch a gwyliwch y clip fideo *Transformers: the work of Christian Aid* oddi ar adran ysgolion **www.christianaid.org.uk/learn**. Trafodwch beth ddysgodd y plant oddi wrth y fideo a'u barn am Cymorth Cristnogol.

Rhannwch y plant i grwpiau bychan a rhowch i bob grŵp gopi o'r daflen *Popeth sydd angen i chi wybod am Cymorth Cristnogol.* Gofynnwch i'r grwpiau i fynd trwy'r ffeithiau a'u rhestru yn ôl pa mor bwysig y maent.

Mae un cerdyn gwag er mwyn i'r disgyblion ychwanegu ffaith maent wedi dysgu o wylio'r fideo. Gofynnwch i bob grŵp i benderfynu pa ffaith yw'r un pwysicaf. Dylid ysgrifennu'r ateb yn y blwch mwyaf ac adrodd yn ôl i weddill y dosbarth gan egluro eu dewis.

Gwaith unigol/gwaith llyfr: gall plant iau ddewis tri o'r ffeithiau a'u haddurno yn eu llyfrau. Gall plant hŷn ysgrifennu llyfryn ar 'Gwaith Cymorth Cristnogol'. Gellir chwilio am wybodaeth a lluniau ar **www.globalgang.org**

## 3. Creu elusen

Mewn parau, gofynnwch i'r disgyblion drafod beth sy'n gwneud elusen yn werth chweil. Yna gofynnwch iddyn nhw i greu eu helusen eu hunain gan ddefnyddio'r cwestiynau isod fel canllaw:

- Beth yw elusen?
- Os ydych yn creu elusen, beth fyddai yn ei wneud?
- Beth fyddai enw eich elusen?
- Beth fyddai bwriad eich elusen?
- Sut fyddech chi'n mynd ati i wneud hyn?
- Beth fyddai logo eich elusen? Pam?
- Sut fuasech chi'n cael pobl i gefnogi eich elusen?

Dylai'r parau wedyn gyflwyno eu helusen i weddill y dosbarth.

**Atebion i Helfa Drysor Global Gang**

1. yn y 1940au
2. Tua 50
3. Children for Community and Change (y 3C) yn Jamaica
4. Unrhyw chwech o'r canlynol : Martha, Megraj, Lauren, Abdul, Aminata, Felipe, Antonio, Pippa'r Pengwin, Kiki'r Parot, Sam y ci, Blenda'r camelion, R42 y Robot
5. Antarctica. Roedd newid hinsawdd yn achosi i'w mynydd iâ (iceberg) doddi
6. Lemar
7. I ail-adeiladu ysgol yn Angola, Affrica.
8. Siocled
9. Mali, yn Affrica
10. Unrhyw un o : perfformio, dawnsio, sgiliau syrcas ee cerdded ar stilts, jyglo, gwneud anifeiliaid balŵn.
11. Eich clybiau jyglo eich hun
12. Disaster Watch

© Cymorth Cristnogol, Mawrth 2008

## 4. Astudiaethau achos

Tafluniwch neu dosbarthwch gopïau o'r astudiaethau achos sy'n dangos dwy enghraifft o brosiectau Cymorth Cristnogol. Darllenwch yr astudiaethau a thrafodwch beth oedd barn y disgyblion am bob prosiect. Pam oedden nhw yn meddwl hynny? Pa wahaniaeth a wnaeth i fywydau pobl? Pa gwestiynau a hoffen nhw eu gofyn i i Musah, Fatimata, Tirza a Bianka?

Rhannwch y dosbarth i barau. Ym mhob pâr, dylai un disgybl esgus bod yn un o blant yr astudiaethau a'r llall yn ohebydd papur newydd. Dylai'r gohebydd holi'r person arall am ei 'stori' gan ofyn cwestiynau fel: Ble maen nhw'n byw? Beth ddigwyddodd iddyn nhw? Sut helpodd Cymorth Cristnogol? ayyb. Ar ddiwedd deg munud, gofynnwch i bob pâr i ymuno â phâr arall sydd wedi edrych ar astudiaeth arall. Dylai'r 'gohebwyr' wedyn ailadrodd eu cyfweliad i'r pâr arall.

Yn ogystal â'r fideo o astudiaeth achos Caja Lúdica, mae yna fwy o storïau gan bobl ifanc y mae Cymorth Cristnogol yn gweithio gyda nhw ar draws y byd ar **www.globalgang.org**

## 5. Cysylltu geiriau

Rhannwch y disgyblion i grwpiau bychan a rhowch i bob grŵp set o sgwariau wedi eu torri allan gyda'r geiriau canlynol wedi eu hysgrifennu arnyn nhw. Mae'r geiriau yn cyfeirio at waith Cymorth Cristnogol. Gallwch ychwanegu eich geiriau eich hunain. Ychwanegwch sgwariau gwag er mwyn i'r plant gynnig eu syniadau eu hunain. Gofynnwch i'r disgyblion edrych ar y sgwariau a'u gosod fel bod pob sgwâr yn gysylltiedig â'r sgwâr nesaf ati. Gofynnwch i'r grwpiau adrodd yn ôl ac egluro'r cysylltiadau rhwng y sgwariau. Gallwch ofyn i'r grŵp i adrodd stori gan ddefnyddio'r cardiau.

- Cymorth Cristnogol
- Plant
- Gwledydd
- Ysgol
- Rhoi
- Gweithredu
- Gweddïo
- Trychinebau
- Help
- Byd
- Annheg
- Newid
- Herio

## 6. Helfa Drysor Global Gang

Os oes gennych ystafell gyfrifiaduron, rhannwch y dosbarth i grwpiau bychan a rhoi taflen waith Helfa Drysor Global Gang i bob grŵp. Defnyddiwch **www.globalgang.org** i gael yr atebion. Cofiwch ddefnyddio adnodd 'chwilio'/*Search* i'ch helpu.

Fe allech gael ras i weld pa grŵp all ateb y cwestiynau i gyd gyntaf. E-bostiwch ni ar **schoolscymru@cymorth-cristnogol.org** ac fe wnawn ni anfon anrhegion Global Gang i'w rhoi i'r tîm buddugol.


Gallwch ddefnyddio bwrdd gwyn rhyngweithiol er mwyn cyflwyno'r gweithgaredd i ddosbarth cyfan.

## 7. Gweddïau ffrwythau

Torrwch allan siapiau ffrwythau neu flodau o bapur a gofyn i'r plant ysgrifennu neu dynnu llun dymuniad neu weddi ar eu siâp. Gallai hyn fod am un o'r plant neu un o'r gwledydd yr ydych wedi sôn amdanynt, neu gallai fod am waith Cymorth Cristnogol. Gludiwch y siapiau ar y goeden a luniwyd gennych ar ddechrau'r sesiwn.

## 8. Newid y byd

Os cafodd eich disgyblion eu hysbrydoli i wneud gwahaniaeth yn y byd, mae Cymorth Cristnogol yn darparu llu o adnoddau a syniadau i'ch helpu chi a hwy i wneud hynny, o weithgareddau fel brwydro yn erbyn newid hinsawdd i ryseitiau bisgedi geifr er mwyn codi arian. Ewch i adran 'Do something' ar **www.christianaid.org.uk/learn**



**www.globalgang.org**

© Cymorth Cristnogol, Mawrth 2008